# CYFANSODDIAD

## Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) yng Nghymru a'r Gororau -

## The Religious Society of Friends (Quakers) in Wales and the Marches

## SCE

## [Sefydliad Corfforedig Elusennol]

**Tabl Cynnwys**


| | |
|---|---|
| **Cymal 1** | Enw'r SCE |
| **Cymal 2** | Lleoliad cenedlaethol prif swyddfa'r SCE |
| **Cymal 3** | Amcan yr SCE |
| **Cymal 4** | Pwerau'r SCE |
| **Cymal 5** | Cymhwyso incwm ac eiddo'r SCE |
| **Cymal 6** | Buddion a thaliadau i Ymddiriedolwyr yr SCE a phersonau cysylltiedig |
| **Cymal 7** | Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch ymhlith Ymddiriedolwyr yr SCE |
| **Cymal 8** | Atebolrwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r SCE os caiff ei ddirwyn i ben |
| **Cymal 9** | Aelodaeth yr SCE |
| **Cymal 10** | Cyfarfodydd ar gyfer Materion Eglwysig yr SCE a'i Gyrff Cyfansoddol |
| **Cymal 11** | Cyfarfodydd Cyffredinol aelodau'r SCE |
| **Cymal 12** | Ymddiriedolwyr yr SCE |
| **Cymal 13** | Penodi Ymddiriedolwyr yr SCE |
| **Cymal 14** | Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr newydd |
| **Cymal 15** | Ymddiriedolwyr yn ymddeol a diswyddo Ymddiriedolwyr |
| **Cymal 16** | Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau |
| **Cymal 17** | Ymddiriedolwyr yr SCE yn dirprwyo |
| **Cymal 18** | Cyfarfodydd a thrafodion Ymddiriedolwyr yr SCE |
| **Cymal 19** | Darpariaethau arbed |
| **Cymal 20** | Ymddiriedolwyr yr SCE yn cyflawni dogfennau |
| **Cymal 21** | Aelodau o’r SCE, gan gynnwys Ymddiriedolwyr, yn defnyddio cyfathrebiadau electronig |
| **Cymal 22** | Cadw Cofrestrau'r SCE |
| **Cymal 23** | Cofnodion yr Ymddiriedolwyr |
| **Cymal 24** | Cofnodion cyfrifyddu, cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol, cynnal a chadw cofrestrau |
| **Cymal 25** | Rheolau'r SCE |
| **Cymal 26** | Anghydfodau rhwng aelodau'r SCE |
| **Cymal 27** | Diwygio’r cyfansoddiad |
| **Cymal 28** | Dirwyn i ben neu ddiddymu’n wirfoddol |
| **Cymal 29** | Canllawiau |
| **Cymal 30** | Cefndir ac ychwanegu Cyfarfodydd Rhanbarth |
| **Cymal 31** | Geirfa’r derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen hon |

**CYFANSODDIAD**
**Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) yng Nghymru a'r Gororau -**
**The Religious Society of Friends (Quakers) in Wales and the Marches**
**SCE**

**[Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau ar wahân i'w Ymddiriedolwyr]**

**Rhif elusen gofrestredig:** 1207878
**Dyddiad y cyfansoddiad (diwygiwyd ddiwethaf):** 16 Ebrill 2024

## 1. Enw'r SCE

Enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ("yr SCE") yw Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) yng Nghymru a'r Gororau - The Religious Society of Friends (Quakers) in Wales and the Marches SCE.

## 2. Lleoliad cenedlaethol prif swyddfa'r SCE

Mae prif swyddfa'r SCE yng Nghymru.

## 3. Amcan yr SCE

Amcan yr SCE yw hyrwyddo dibenion crefyddol ac elusennol cyffredinol Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ym Mhrydain.

I'r perwyl hwnnw, defnyddir incwm ac eiddo'r SCE yn unig i hyrwyddo ei amcan trwy waith megis:

1. cryfhau bywyd a thystiolaeth Crynwyr yng Nghyrff Cyfansoddol yr SCE;
2. lledaenu neges y Crynwyr a dehongli a datblygu meddwl ac ymarfer Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion;
3. ymgymryd â gwasanaeth y Crynwyr er mwyn lleddfu dioddefaint gartref a thramor;
4. ariannu gofalon y Crynwyr yng Nghyrff Cyfansoddol yr SCE;
5. darparu ar gyfer gofal bugeiliol Aelodau a Mynychwyr unigol y Cyrff Cyfansoddol gan gynnwys cymorth i'r rhai mewn angen ac ar gyfer addysg;
6. cynnal a datblygu tai cyfarfod y Crynwyr fel mannau ar gyfer addoliad cyhoeddus a mannau cychwyn i gario ein tystiolaeth i'r byd;
7. gweinyddu a chynnal trefniadaeth y Cyrff Cyfansoddol a chyfrannu at gefnogi Cyfarfod Blynyddol Prydain.
8. hwyluso cyswllt rhwng Crynwyr o bob oed, a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chydgefnogaeth i'r rhai sydd â chyfrifoldebau arbennig, ar y cyd â'i Gyrff Cyfansoddol a chyrff eraill y Crynwyr;
9. gweithio gydag eglwysi a grwpiau eciwmenaidd a rhyng-ffydd eraill yng Nghymru a'r Gororau;

10. cynrychioli barn Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion i'r Senedd a'r gymuned ehangach, a sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol eraill yng Nghymru a'r Gororau a thu hwnt yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thystiolaeth gymdeithasol, heddwch a chysylltiadau rhyng-ffydd;
11. ymateb i faterion sy'n ymwneud â byw mewn cymdeithas ddwyieithog, gan gynnwys allgymorth yng Nghymru a chomisiynu, cyfieithu a chyhoeddi deunydd y Crynwyr yn yr iaith Gymraeg, er mwyn hyrwyddo'r amcan uchod; a
12. cynrychioli Cymru i Gyfarfod Blynyddol Prydain a chysylltu â'i bwyllgorau a'i adrannau lle bo hynny'n briodol.

**4. Pwerau'r SCE**

Mae gan yr SCE bŵer i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hyrwyddo ei amcan, yn arwain at wneud hynny neu'n gysylltiedig â gwneud hynny. Yn benodol (ond heb gyfyngiad) mae pwerau'r SCE yn cynnwys pŵer i:

1. codi arian drwy roddion, cymynroddion neu fel arall;
2. adneuo a buddsoddi arian nad yw'n ofynnol ar unwaith ar gyfer amcanion yr SCE mewn neu ar fuddsoddiadau, gwarantau neu eiddo arall o'r fath y mae'r Ymddiriedolwyr yn credu eu bod yn addas yn unol â chyfyngiadau cyfreithiol a Thystiolaeth Foesegol Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion;
3. trefnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr SCE gael eu cadw yn enw enwebai, yn y fath fodd ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn meddwl sy’n addas;
4. cyflogi rheolwr cronfa proffesiynol;
5. prynu, cymryd les neu gyfnewid, llogi neu gaffael fel arall unrhyw eiddo, a’i gynnal a'i gyfarparu i'w ddefnyddio;
6. gwerthu, rhoi ar les neu waredu fel arall yr eiddo cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo sy'n eiddo i'r SCE (ond wrth arfer y pŵer hwn, rhaid i'r SCO gydymffurfio fel sy'n briodol ag adrannau 117 a 119-123 o Ddeddf Elusennau 2011);
7. benthyg arian;
8. arwystlo’r cyfan neu unrhyw ran o'i eiddo fel gwarant ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd (ond rhaid i'r SCE gydymffurfio fel sy'n briodol ag adrannau 124 a 125 o Ddeddf Elusennau 2011 os yw'n dymuno morgeisio tir);
9. rhoi incwm o'r neilltu fel cronfeydd wrth gefn;
10. cydweithredu â sefydliadau ac eglwysi eraill yng Nghymru a thu hwnt i hyrwyddo amcan yr SCE;
11. sefydlu neu gefnogi ymddiriedolaethau neu sefydliadau a ffurfiwyd at ddibenion elusennol o fewn amcan yr SCE;
12. cyflogi a thalu (gan gynnwys talu pensiynau) y staff hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni gwaith yr SCE; (ond gall yr SCE gyflogi neu dalu Ymddiriedolwr dim ond i'r graddau y caniateir gwneud hynny gan gymal 6 (Buddion a thaliadau i Ymddiriedolwyr a phersonau cysylltiedig) a chyhyd â’i fod yn cydymffurfio ag amodau'r cymal hwnnw);

13. cael a thalu am nwyddau a gwasanaethau;
14. ad-dalu treuliau rhesymol, gan gynnwys rhai'r Ymddiriedolwyr, yr aethpwyd iddynt wrth weithredu ar ran yr SCE;
15. agor a gweithredu cyfrifon banc ac awdurdodi unrhyw rai o Gyrff Cyfansoddol neu bwyllgorau'r SCE i agor cyfrifon banc, a phenodi llofnodwyr yn unol â'r cyfryw fesurau diogelu y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn briodol;
16. masnachu wrth gyflawni amcanion yr SCE a chynnal unrhyw fasnach arall na ddisgwylir iddo arwain at elw trethadwy; ac
17. ymgorffori a chaffael is-sefydliadau.

**5. Cymhwyso incwm ac eiddo'r SCE**

1. Rhaid cymhwyso incwm ac eiddo'r SCE tuag at hyrwyddo'r amcanion yn unig.
    a. Mae gan Ymddiriedolwr hawl i gael ad-daliad o eiddo'r SCE neu gall, o eiddo o'r fath, dalu treuliau rhesymol yr aeth iddynt yn briodol wrth weithredu ar ran yr SCE.
    b. Gall Ymddiriedolwr elwa o yswiriant indemniad ymddiriedolwyr a brynwyd ar draul yr SCE yn unol â'r amodau yn adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn ddarostyngedig iddynt.
2. Ni ellir talu na throsglwyddo unrhyw incwm neu eiddo'r SCE yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol trwy ddifidend, bonws neu fel arall trwy elw i unrhyw aelod o'r SCE. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw hefyd yn Ymddiriedolwr rhag:
    a. derbyn budd gan yr SCE fel buddiolwr i'r SCE;
    b. prynu neu dderbyn nwyddau a/neu wasanaethau gan yr SCE ar delerau rhesymol a phriodol;
    c. gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fuddiant mewn tir i'r SCE ar delerau rhesymol a phriodol;
    d. cael eu cyflogi neu dderbyn tâl gan yr SCE ar delerau rhesymol a phriodol;
    e. derbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r SCE ar gyfradd resymol a phriodol y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol);
    f. derbyn rhent ar gyfer eiddo wedi'i osod gan yr aelod neu'r person cysylltiedig â'r SCE. Rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y les fod yn rhesymol ac yn briodol; nac
    g. cymryd rhan yn y gweithgareddau masnachu a chodi arian arferol ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig rhag derbyn unrhyw fudd neu daliad sydd wedi'i awdurdodi gan Gymal 6.

**6. Buddion a thaliadau i Ymddiriedolwyr yr SCE a phersonau cysylltiedig**

1. **Darpariaethau cyffredinol**

Ni all unrhyw Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig:

a. prynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr SCE ar delerau mwy ffafriol na'r rhai sy'n berthnasol i aelodau'r cyhoedd;

b. gwerthu nwyddau, gwasanaethau, neu unrhyw fuddiant mewn tir i'r SCE;

c. cael eu cyflogi gan, neu dderbyn unrhyw dâl cydnabyddiaeth gan yr SCE;

d. derbyn unrhyw fudd ariannol arall gan yr SCE;

onid yw'r taliad neu'r budd yn cael ei ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn, neu'n cael ei awdurdodi gan y llys neu y cafwyd caniatâd ysgrifenedig blaenorol y Comisiwn Elusennau ("y Comisiwn"). Yn y cymal hwn, ystyr "budd ariannol" yw budd, uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

2. **Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion i Ymddiriedolwyr neu bersonau cysylltiedig**

   a. Gall Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig dderbyn budd gan yr SCE fel buddiolwr cyhyd â'i fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr yr SCE.

   b. Gall Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig dderbyn taliad am nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r SCE lle caniateir hynny yn unol â'r amodau yn adran 185 i 188 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn ddarostyngedig iddynt.

   c. Gall Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r SCE ar gyfradd resymol a phriodol na ddylai fod yn fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol). Dylai'r SCE gofnodi swm a thelerau benthyciad yr Ymddiriedolwr neu'r person cysylltiedig.

   d. Gall Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig dderbyn rhent ar gyfer eiddo a osodir gan yr Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig i'r SCE. Rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y les fod yn rhesymol ac yn briodol. Rhaid i'r Ymddiriedolwr dan sylw dynnu'n ôl o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu rent neu delerau eraill y les yn cael eu trafod.

   e. Gall Ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig gymryd rhan yng ngweithgareddau masnachu a chodi arian arferol yr SCE ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

3. Yn y cymal 6 hwn:

   a. mae "yr SCE" yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r SCE:

      (i) yn dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu

      (ii) yn rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sydd ynghlwm wrth y cyfranddaliadau; neu

      (iii) yn meddu ar yr hawl i benodi un neu ragor o gyfarwyddwyr i fwrdd y cwmni;

   b. mae "person cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw berson o fewn y diffiniad a nodir yng nghymal 31 (Geirfa).

**7. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch ymhlith Ymddiriedolwyr yr SCE**

Mae'n rhaid i Ymddiriedolwr:

1. datgan natur a maint unrhyw fuddiant, uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd ganddynt mewn trafodiad neu drefniant arfaethedig gyda'r SCE neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniant yr ymrwymwyd iddo gan yr SCE nad yw wedi'i ddatgan o'r blaen; a
2. eu gwneud eu hunain yn absennol o unrhyw drafodaethau'r Ymddiriedolwyr lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro buddiannau yn codi rhwng eu dyletswydd i weithredu'n unig er budd yr SCE ac unrhyw fuddiant personol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw fuddiant ariannol).

Ni ddylai unrhyw Ymddiriedolwr sy'n eu gwneud eu hunain yn absennol o unrhyw drafodaethau yn unol â'r cymal hwn fod yn rhan o'r ddirnadaeth na chael eu cyfrif yn rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr ar y mater.

**8. Atebolrwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r SCE os caiff ei ddirwyn i ben**

Os caiff yr SCE ei ddirwyn i ben, nid oes gan aelodau'r SCE unrhyw gyfrifoldeb i gyfrannu at ei asedau a dim cyfrifoldeb personol dros glirio ei ddyledion a'i rwymedigaethau.

**9. Aelodaeth yr SCE**

1. Mae aelodaeth yr SCE yn cynnwys, ac yn gyfyngedig i, holl aelodau'r Cyfarfodydd Rhanbarth Cyfansoddol o bryd i'w gilydd. Mae'r rheolau ar gyfer aelodaeth Cyfarfodydd Rhanbarth Cyfansoddol wedi'u nodi yn Atodiad 1.
2. Bydd person yn peidio â bod yn aelod o'r SCE os bydd yn peidio â bod yn aelod o Gyfarfod Rhanbarth Cyfansoddol. Os byddant yn symud i Gyfarfod Rhanbarth nad yw'n Gyfarfod Rhanbarth Cyfansoddol, yna bydd eu haelodaeth o'r SCE yn dod i ben pan fydd y Cyfarfod Rhanbarth sy'n eu derbyn yn cofnodi eu bod yn derbyn y trosglwyddiad.
3. Bydd yr SCE yn penodi person i gadw cofrestr o aelodau. Bydd y gofrestr hon yn nodi ar gyfer pob aelod presennol, eu henw, cyfeiriad a'r dyddiad y daethant yn aelod o'r SCE. Er mwyn cadw'r gofrestr aelodau yn gyfredol, mae'n rhaid anfon pob cofnod Cyfarfod Rhanbarth ynghylch aelodaeth i'r person sy'n gyfrifol am gynnal cofrestr yr SCE o fewn 7 diwrnod. Rhaid diweddaru'r gofrestr cyn gynted â phosibl ar ôl cytuno ar y cofnod.
4. Nid yw mynychwyr yn aelodau ac nid yw eu manylion yn cael eu cynnwys yn y gofrestr aelodau.
5. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o'r SCE i arfer eu pwerau fel aelod o'r SCE yn y ffordd y maent yn penderfynu yn ddidwyll fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr SCE.
6. Gall aelod o'r SCE fod yn gyflogai o'r SCE.

**10. Cyfarfodydd ar gyfer Materion Eglwysig yr SCE a'i Gyrff Cyfansoddol.**

1. **Gweithdrefnau Cyffredinol**

   a. Bydd busnes a gweithgareddau'r SCE a'i Gyrff Cyfansoddol, ac yn benodol y ffordd y gwneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd, yn cael eu cynnal bob amser yn unol â Dull Busnes y Crynwyr a nodir isod.

   b. Mae cyfarfodydd ar gyfer materion eglwysig, lle mae Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion yn cynnal ei busnes, yn gyfarfodydd addoli yn seiliedig ar dawelwch, gan gario'r disgwyliad y gellir dirnad arweiniad Duw os yw aelodau'n gwirioneddol wrando gyda'i gilydd ac ar ei gilydd. Mae'r undod sy'n cael ei geisio yn dibynnu ar barodrwydd pawb i geisio'r gwirionedd yng ngeiriau ei gilydd. Nid oes pleidleisio yn y cyfarfodydd, oherwydd cred Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion y byddai hyn yn pwysleisio'r rhaniadau rhwng safbwyntiau gwahanol ac yn atal y broses o geisio gwybod y ffordd gywir ymlaen, ewyllys Duw fel y'i mynegwyd yn ymdeimlad y cyfarfod.

   c. Clerc y cyfarfod sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am baratoi'r busnes, cynnal y cyfarfod a drafftio cofnodion y cyfarfod. Caiff cofnodion eu drafftio gan y Clerc (neu rywun sy'n eu cynorthwyo) yn ystod y cyfarfod, ond cyfrifoldeb y cyfarfod ei hun, nid y Clerc, yw'r penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r cofnod yn cynrychioli ymdeimlad y cyfarfod.

   d. Mae'r ffordd hon o gynnal cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau yn cael ei hadnabod fel Dull Busnes y Crynwyr, a dyma sut y cyfeirir ati fan yma. Fe'i disgrifir yn llawn yn y Llyfr Disgyblaeth.

2. **Penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd benodol**

   a. Bydd busnes a gweithgareddau'r SCE bob amser yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau rhifyn cyfredol y Llyfr Disgyblaeth.

   b. Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i ddiswyddo Ymddiriedolwr yn unol â chymal 15(2).

   c. Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i ddiwygio'r cyfansoddiad hwn yn unol â chymal 27.

   d. Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i ddirwyn yr SCE i ben neu ei ddiddymu yn unol â chymal 28.

   e. Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i uno neu drosglwyddo ymgymeriad yr SCE i un neu ragor o SCEau eraill yn unol â darpariaethau Deddf Elusennau 2011 neu ddeddfwriaeth berthnasol ddilynol.

**11. Cyfarfodydd cyffredinol aelodau'r SCE**

1. **Mathau o Gyfarfod Cyffredinol**

   a. Rhaid cael Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o aelodau'r SCE.

   b. Mae cyfarfodydd cyffredinol yr SCE yn agored i holl aelodau'r SCE. Gall mynychwyr fod yn bresennol gyda chaniatâd Clerc eu Corff Cyfansoddol.

   c. Rhaid cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol o fewn cyfnodau o ddim mwy na 15 mis oni bai bod yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu na ellir cydymffurfio â hyn yn ymarferol oherwydd amgylchiadau eithriadol. Mae'n rhaid i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

(i) derbyn y datganiad cyfrifon blynyddol (wedi'i archwilio’n briodol lle bo hynny'n berthnasol) ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr;

(ii) penodi archwilydd neu archwiliwr annibynnol fel y bo'n berthnasol; a

(iii) penodi Ymddiriedolwyr fel sy'n ofynnol o dan gymal 13.

d. Gellir cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol eraill o aelodau'r SCE ar unrhyw adeg.

e. Rhaid cynnal pob Cyfarfod Cyffredinol yn unol â'r darpariaethau canlynol.

2. **Galw Cyfarfodydd Cyffredinol**

a. Rhaid i’r Ymddiriedolwyr:

(i) alw’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o aelodau'r SCE yn unol ag is-gymal (1) o’r cymal hwn, a'i alw’n hynny yn hysbysiad y cyfarfod; a

(ii) gallant alw unrhyw gyfarfod cyffredinol arall o'r aelodau ar unrhyw adeg.

b. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr, o fewn 21 diwrnod, alw Cyfarfod Cyffredinol o aelodau'r SCE:

(i) os ydynt yn derbyn cais ysgrifenedig ar ffurf cofnod o un o Gyrff Cyfansoddol yr SCE; a

(ii) os yw'r cais yn nodi natur gyffredinol y busnes yr ymdrinnir ag ef yn y cyfarfod.

c. Gellir cynnig unrhyw gais o'r fath yn briodol dim ond os yw'n gyfreithlon, ac nad yw'n ddifenwol, yn wacsaw nac yn flinderus.

d. Rhaid i unrhyw Gyfarfod Cyffredinol a elwir gan yr Ymddiriedolwyr yn dilyn cais cofnodedig gan Gorff Cyfansoddol o'r SCE gael ei gynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn y cais.

e. Os bydd yr Ymddiriedolwyr yn methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon i alw Cyfarfod Cyffredinol ar gais y Corff Cyfansoddol hwnnw, yna gall clerc y Corff Cyfansoddol hwnnw eu hun alw Cyfarfod Cyffredinol o'r SCE.

f. Rhaid i Gyfarfod Cyffredinol a elwir fel hyn gael ei gynnal heb fod yn fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y derbyniwyd y cais cofnodedig gan yr Ymddiriedolwyr.

3. **Hysbysiad o Gyfarfodydd Cyffredinol**

a. Fel arfer, rhaid i'r Ymddiriedolwyr, neu glerc pa bynnag Gorff Cyfansoddol a alwodd y cyfarfod os mai hynny y bo’r achos, roi o leiaf 14 diwrnod clir o hysbysiad o unrhyw Gyfarfod Cyffredinol i'r holl aelodau, ac i unrhyw Ymddiriedolwr yr SCE nad ydynt yn aelod o'r SCE. Mae'r dulliau i'w defnyddio i roi hysbysiad o Gyfarfodydd Cyffredinol wedi'u nodi yng Nghymal 21.

b. Rhaid i'r hysbysiad o unrhyw Gyfarfod Cyffredinol:

(i) nodi dyddiad ac amser y cyfarfod;

(ii) rhoi'r cyfeiriad ble y cynhelir y cyfarfod a/neu'r ddolen ar-lein ar gyfer cyfarfod electronig neu hybrid;

(iii) rhoi manylion busnes y cyfarfod;

(iv) os oes cynnig i newid cyfansoddiad yr SCE i'w ystyried yn y cyfarfod, gynnwys testun y newid arfaethedig;

(v) cynnwys, gyda'r hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredin Blynyddol, y datganiad cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr, manylion y personau a enwebwyd i'w penodi neu eu hailbenodi fel Ymddiriedolwr, neu o dan gymal 21 (Defnyddio cyfathrebiadau electronig), manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i'r wybodaeth.

c. Bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys hysbysiad wedi'i chyfeirio, ei rhagdalu a'i phostio'n briodol; neu fod ffurf electronig o hysbysiad wedi'i chyfeirio a'i hanfon yn briodol, yn dystiolaeth bendant bod yr hysbysiad wedi'i roi. Pan anfonir hysbysiad drwy'r post, bernir ei fod yn cael ei dderbyn 48 awr ar ôl ei bostio. Pan anfonir hysbysiad drwy ffurf electronig (er enghraifft, drwy e-bost), bernir ei fod yn cael ei dderbyn ar yr un diwrnod ag y cafodd ei anfon.

d. Ni fydd trafodion cyfarfod yn annilys am nad oedd aelod a oedd â hawl i dderbyn hysbysiad o'r cyfarfod wedi derbyn yr hysbysiad oherwydd anweithred ddamweiniol gan yr SCE.

4. **Clercio Cyfarfodydd Cyffredinol**

Dylai pob Corff Cyfansoddol benodi Cyfaill, naill ai Clerc presennol neu aelod o'u tîm clercio, i ffurfio grŵp i baratoi busnes unrhyw Gyfarfod Cyffredinol a phenodi un o'u plith i glercio'r cyfarfod, gyda chefnogaeth aelodau eraill o'r tîm.

5. **Cworwm mewn Cyfarfodydd Cyffredinol**

a. Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod o'r SCE oni bai bod cworwm yn bresennol pan fydd y cyfarfod yn dechrau. Y cworwm ar gyfer Cyfarfodydd Cyffredinol yr SCE fydd o leiaf dau aelod o bob Corff Cyfansoddol. Gall clercod pob Corff Cyfansoddol ddefnyddio gweithdrefnau rhwng cyfarfodydd i nodi aelodau'r SCE i fod yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol.

b. Os bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, gall y cyfarfod drafod materion a gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolwyr ond ni chaiff wneud unrhyw benderfyniadau. Os oes angen penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan gyfarfod o'r aelodau, rhaid gohirio'r cyfarfod.

6. **Gwneud Penderfyniadau mewn Cyfarfodydd Cyffredinol**

Gweler Cymal 10 (1) am fanylion Dull Busnes y Crynwyr i'w ddefnyddio ym mhob cyfarfod.

7. **Gohirio**

Gall clerc cyfarfod gyda chydsyniad cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a byddant yn gwneud hynny os cânt eu cyfarwyddo gan y cyfarfod), neu os oes problemau technegol sylweddol yn eu barn hwy yn rhwystro cyfranogiad yn y cyfarfod, ohirio'r cyfarfod tan amser a/neu le arall. Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod gohiriedig ac eithrio busnes y gellid bod wedi'i drafod yn briodol yn y cyfarfod gwreiddiol.

## 12. Ymddiriedolwyr yr SCE

1. **Swyddogaethau a dyletswyddau Ymddiriedolwyr**

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rheoli materion yr SCE a gallant arfer holl bwerau'r SCE at y diben hwnnw. Wrth wneud hynny, byddant bob amser yn cael eu harwain gan y Llyfr Disgyblaeth. Mae'n ddyletswydd ar bob Ymddiriedolwr:

a. i arfer eu pwerau a chyflawni eu swyddogaethau fel Ymddiriedolwr yr SCE yn y ffordd y maent yn penderfynu yn ddidwyll fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr SCE; a

b. i arfer, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, y cyfryw ofal a sgìl ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau gan ystyried yn benodol:

   (i) unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddynt, neu y maent yn hawlio sydd ganddynt; a

   (ii) os ydynt yn gweithredu fel Ymddiriedolwr yr SCE yng nghwrs busnes neu broffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan berson sy'n gweithredu yng nghwrs y math hwnnw o fusnes neu broffesiwn.

2. **Cymhwysedd ar gyfer Ymddiriedolaeth**

   Rhaid i Ymddiriedolwyr fod yn aelodau o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion ac fel arfer byddant yn cael eu penodi o blith aelodau'r Cyrff Cyfansoddol. Os cânt eu penodi'n glerc Corff Cyfansoddol neu'n dod yn gyflogai i'r SCE, bydd eu rôl fel Ymddiriedolwr yn dod i ben yn awtomatig.

3. **Nifer Ymddiriedolwyr yr SCE**

   Bydd y Pwyllgor Enwebiadau, mewn ymgynghoriad â'r holl Gyrff Cyfansoddol, yn cyflwyno enwau aelodau Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion i'w penodi'n Drysorydd yr SCE a dim llai na 4 a hyd at 14 aelod arall o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion fel Ymddiriedolwyr.

4. **Ymddiriedolwyr cyntaf**

   Ymddiriedolwyr cyntaf yr SCE yw:

   Jeffrey Beatty;

   Jeremy Brignell-Thorp;

   Patricia Bridgewater;

   Gwyneth Hewitson; ac

   Iona Lyons.

**13. Penodi Ymddiriedolwyr yr SCE**

1. Bydd Ymddiriedolwyr yn cael eu penodi mewn cyfarfod o aelodau'r SCE, fel arfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a fydd yn penodi enwebeion a gyflwynir gan y Pwyllgor Enwebiadau i weithredu fel Ymddiriedolwyr.
2. Bydd Pwyllgor Enwebiadau'r SCE, sy'n cynnwys Cynullyddion y Pwyllgorau Enwebiadau, neu gynrychiolydd penodedig arall o bob Corff Cyfansoddol, yn cydlynu enwebiadau i wasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr SCE ac enwebiadau ar gyfer rolau eraill yn ôl y gofyn.
3. .Bydd y Pwyllgor Enwebiadau, mewn ymgynghoriad â'r holl Gyrff Cyfansoddol, yn cyflwyno enwebiadau i'w penodi'n Drysorydd yr SCE a dim llai na 4 a hyd at 14 arall fel

Ymddiriedolwyr. Bydd o leiaf un Cyfaill, ac fel arfer 2 neu ragor, yn cael eu penodi o bob Corff Cyfansoddol. Wrth wneud yr enwebiadau hyn, bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried yr angen i sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol, amrywiaeth a chydbwysedd o sgiliau a phrofiad ar gorff yr Ymddiriedolwyr ac i alluogi cynllunio olyniaeth

4. Ar gyfer y weithdrefn i benodi clerc yr Ymddiriedolwyr gweler Cymal 18 (5).
5. Ar gyfer y weithdrefn i benodi clerc yr SCE gweler Cymal 11 (4).
6. Gall Ymddiriedolwyr gael eu penodi am unrhyw dymor o hyd at bedair blynedd. Gellir ailbenodi Ymddiriedolwr i dymor pellach o hyd at bedair blynedd i roi tymor di-dor o wasanaeth fel Ymddiriedolwr yr SCE sydd fel arfer heb fod yn fwy nag wyth mlynedd. Ni ellir ailbenodi'r Cyfaill hwnnw fel arfer yn Ymddiriedolwr yr SCE nes bod dwy flynedd wedi mynd heibio ar ôl diwedd y cyfnod olaf o wasanaeth yn rhinwedd y swydd honno oni bai bod y pwyllgor enwebiadau yn penderfynu bod amgylchiadau eithriadol yn gysylltiedig â budd gorau'r Elusen. At ddibenion dehongli'r cymal hwn, mae cyfeiriadau at "flynyddoedd" yn fras, gan nodi bod penodiad ac ymddeoliad Ymddiriedolwyr fel arfer yn digwydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, nad yw'n cael ei gynnal ar yr un pryd yn union ym mhob blwyddyn.
7. Os caiff Ymddiriedolwr eu rhyddhau o'u gwasanaeth am unrhyw reswm bydd gan yr Ymddiriedolwyr y pŵer i gyfethol tan y Cyfarfod Cyffredinol nesaf, pan gaiff enw ei gyflwyno i'r cyfarfod fel enwebiad gan Ymddiriedolwyr i'w benodi yn y cyfarfod hwnnw.
8. Gall y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wneud diwygiad i'r trefniadau penodi hyn yn unol â'r ddarpariaeth yng Nghymal 25 y Cyfansoddiad hwn.

**14. Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr newydd**

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod y canlynol ar gael i bob Ymddiriedolwr newydd yr elusen, ar neu cyn eu penodiad cyntaf:

1. copi o'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw ddiwygiadau a wnaed iddo; a
2. copi o adroddiad blynyddol diweddaraf yr Ymddiriedolwyr a datganiad cyfrifon diweddaraf yr SCE.

**15. Ymddiriedolwyr yn ymddeol a diswyddo Ymddiriedolwyr**

1. Mae Ymddiriedolwr yn peidio â dal swydd os ydynt:
    a. yn marw;
    b. yn peidio â bod yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwr yn unol â chymal 12; neu
    c. wedi'u hanghymhwyso rhag gweithredu fel Ymddiriedolwr elusen yn rhinwedd adran 178-180 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad statudol o'r ddarpariaeth honno).
    d. Gall Ymddiriedolwr hysbysu'r SCE yn ysgrifenedig eu bod yn dymuno ymddiswyddo. Fel arfer maent yn parhau i wasanaethu nes iddynt gael eu rhyddhau yn y Cyfarfod Cyffredinol nesaf. Fodd bynnag, os bydd yr Ymddiriedolwyr eraill yn penderfynu y dylai'r

ymddiswyddiad ddod i rym ar unwaith, gallant gytuno ar gofnod yn egluro hyn, sydd wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

2. Gall Ymddiriedolwyr hefyd awgrymu i'r Cyfarfod Cyffredinol fod Ymddiriedolwr yn cael eu rhyddhau o'u gwasanaeth:
   a. os yw Ymddiriedolwyr yr SCE yn penderfynu nad ydynt bellach yn berson addas i gyflawni dyletswyddau Ymddiriedolwr:
   b. os yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw'r Ymddiriedolwr yn gallu gweithredu'n gorfforol neu'n feddyliol fel Ymddiriedolwr ac y gallant barhau felly am fwy na thri mis; neu
   c. os ydynt yn absennol heb ganiatâd Ymddiriedolwyr yr elusen o'u holl gyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o naw mis a bod yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu eu bod yn gadael eu swydd.
3. Bydd Ymddiriedolwr yn cael eu diswyddo os gwneir penderfyniad o'r fath mewn Cyfarfod Cyffredinol o'r aelodau a alwyd at y diben hwnnw ac sydd wedi'i gynnull yn briodol yn unol â chymal 11. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol yn nodi mai dyma ewyllys y cyfarfod, gan nodi na fydd penderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr yn unol â'r cymal hwn yn dod i rym oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cael o leiaf 14 diwrnod clir o hysbysiad ysgrifenedig y bydd y mater hwn gerbron y cyfarfod, gan nodi'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn cyfiawnhau’r diswyddiad, a’u bod wedi cael cyfle rhesymol i wneud sylwadau llafar a/neu ysgrifenedig i aelodau'r SCE.

**16. Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau**

Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad gan ddefnyddio Dull Busnes y Crynwyr (gweler Cymal 10 (1)) naill ai:

1. mewn cyfarfod ffisegol o'r Ymddiriedolwyr; neu
2. drwy ddulliau electronig (gweler Cymal 21); neu
3. mewn cyfarfod hybrid.

**17. Ymddiriedolwyr yr SCE yn dirprwyo**

1. Gall yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo unrhyw rai o'u pwerau neu swyddogaethau i bwyllgor sy’n cynnwys un neu ragor o Ymddiriedolwyr ond rhaid gwneud cofnod o delerau unrhyw ddirprwyaeth o'r fath.
2. Gall yr ymddiriedolwyr osod amodau wrth ddirprwyo, gan gynnwys yr amodau:
   a. bod y pwerau perthnasol i'w harfer yn gyfan gwbl gan y pwyllgor y maent yn cael eu dirprwyo iddo;
   b. na cheir unrhyw wariant ac eithrio yn unol â chyllideb a gytunwyd yn flaenorol gyda'r Ymddiriedolwyr.
   c. y gall yr Ymddiriedolwyr ddirymu neu newid dirprwyaeth.
3. Rhaid adrodd holl weithredoedd a thrafodion unrhyw bwyllgor o'r fath yn llawn ac yn brydlon i'r Ymddiriedolwyr.

4. Dirprwyo pwerau rheoli o ddydd i ddydd. Yn achos dirprwyo rheolaeth yr SCE o ddydd i ddydd i brif weithredwr neu reolwr neu reolwyr eraill:
    a. y pŵer dirprwyedig fydd rheoli'r SCE drwy weithredu'r polisi a'r strategaeth a fabwysiadwyd gan ac o fewn cyllideb a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac, os yw'n berthnasol, cynghori'r Ymddiriedolwyr mewn perthynas â pholisi, strategaeth a chyllideb o'r fath;
    b. bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi i unrhyw reolwr ddisgrifiad o rôl y rheolwr a hyd a lled awdurdod y rheolwr; ac
    c. rhaid i unrhyw reolwr adrodd yn rheolaidd i'r Ymddiriedolwyr ar y gweithgareddau a wneir wrth reoli'r SCE a rhoi cyfrifon rheoli rheolaidd iddynt sy'n ddigonol i egluro sefyllfa ariannol yr SCE.
5. Dirprwyo rheoli buddsoddiadau. Gall yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo rheoli buddsoddiadau i Arbenigwr neu Arbenigwyr Ariannol cyhyd â:
    a. bod y polisi buddsoddi wedi'i nodi'n ysgrifenedig ar gyfer yr Arbenigwr neu’r Arbenigwyr Ariannol gan yr Ymddiriedolwyr;
    b. bod adroddiadau amserol o'r holl drafodion yn cael eu darparu i'r Ymddiriedolwyr;
    c. bod perfformiad y buddsoddiadau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gyda'r Ymddiriedolwyr;
    d. bod gan yr Ymddiriedolwyr hawl i ganslo'r trefniant dirprwyo ar unrhyw adeg;
    e. bod y polisi buddsoddi a'r trefniadau dirprwyo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
    f. bod yr holl daliadau sy'n ddyledus i'r Arbenigwr neu’r Arbenigwyr Ariannol ar raddfa neu ar lefel y cytunwyd arni ymlaen llaw a’u bod yn cael eu hysbysu'n brydlon i'r Ymddiriedolwyr pan gânt eu derbyn; ac
    g. na ddylai'r Arbenigwr neu’r Arbenigwyr Ariannol wneud unrhyw beth y tu hwnt i bwerau'r Ymddiriedolwyr.

**18. Cyfarfodydd a thrafodion Ymddiriedolwyr yr SCE**

1. Wrth gynnal eu cyfarfodydd, bydd yr Ymddiriedolwyr yn dilyn Dull Busnes y Crynwyr (gweler cymal 10.1).
2. Mae cofnodion i'w gwneud yn y cyfarfod a'u derbyn a'u llofnodi yn unol â Dull Busnes y Crynwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cadw cofnodion o'r trafodion yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr a chyfarfodydd unrhyw is-bwyllgor.
3. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnal o leiaf ddau gyfarfod bob blwyddyn. Gall cyfarfod arbennig o’r Ymddiriedolwyr gael ei alw ar unrhyw adeg gan glerc yr Ymddiriedolwyr neu gan unrhyw ddau Ymddiriedolwr ar ôl i ddim llai na phedwar diwrnod o hysbysiad gael ei roi i'r Ymddiriedolwyr eraill o'r materion sydd i'w trafod. Gellir hepgor y cyfnod hwn o hysbysiad gyda chydsyniad yr holl Ymddiriedolwyr.
4. Gellir cynnal cyfarfod drwy ddulliau electronig addas y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolwyr lle gall pob cyfranogwr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill (gweler cymal 21).
5. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn bwrw ymlaen ag enw un o'u plith i'w penodi’n glerc yr Ymddiriedolwyr drwy Gyfarfod Cyffredinol, fel arfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

6. Os nad oes unrhyw un wedi'u penodi felly, neu os yw'r person a benodir yn anfodlon llywyddu neu nad ydynt yn bresennol o fewn 10 munud ar ôl amser y cyfarfod, gall yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol benodi un o'u plith i glercio’r cyfarfod hwnnw.
7. Cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr fydd hanner nifer presennol yr Ymddiriedolwyr.
8. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adrodd i aelodau’r SCE o leiaf unwaith y flwyddyn, fel arfer yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Byddant hefyd yn cyfeirio unrhyw benderfyniadau mawr, megis rhai sy'n ymwneud â chaffael, gwaredu neu newid mawr i dir neu adeiladau, i gyfarfod o aelodau’r SCE. Pan fydd y mater yn gofyn am gamau brys i osgoi achosi difrod neu gost bellach, gall yr Ymddiriedolwyr weithredu cyn cyflwyno'r mater i gyfarfod. Dylent egluro eu gweithredoedd i aelodau'r SCE cyn gynted â phosibl.
9. Gall yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd wneud a newid trefniadau ar gyfer cynnal eu busnes, sut y caiff eu cyfarfodydd eu cynnull a’u cynnal, ac ynghylch gwarchodaeth dogfennau. Ni chaniateir gwneud unrhyw reol sy'n anghyson â'r ddogfen lywodraethol hon.

**19. Darpariaethau arbed**

1. Yn ddarostyngedig i is-gymal (2) o'r cymal hwn, bydd holl benderfyniadau'r Ymddiriedolwyr, neu bwyllgor o Ymddiriedolwyr, yn ddilys er gwaethaf, mewn unrhyw benderfyniad, gyfranogiad Ymddiriedolwr:
   a. a oedd yn anghymwys i ddal swydd;
   b. a oedd yn flaenorol wedi ymddeol neu a oedd wedi'u gorfodi gan y cyfansoddiad i adael y swydd;
   c. nad oedd ganddynt hawl i gymryd rhan yn y penderfyniad ar y mater, p'un ai oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

   os, heb gymryd rhan ym mhenderfyniad yr Ymddiriedolwr hwnnw a bod yr Ymddiriedolwr hwnnw wedi'i gyfrif yn y cworwm, yw'r penderfyniad wedi'i wneud gan yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfod cworwm.
2. Nid yw is-gymal (1) o'r cymal hwn yn caniatáu i Ymddiriedolwr gadw unrhyw fudd y gellir ei roi iddynt drwy benderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr neu bwyllgor o Ymddiriedolwyr pe byddai'r penderfyniad, oni bai am is-gymal (1), wedi bod yn ddi-rym, neu os nad yw'r Ymddiriedolwr wedi cydymffurfio â chymal 7 (Gwrthdaro buddiannau).

**20. Ymddiriedolwyr yr SCE yn cyflawni dogfennau**

Bydd yr SCE yn cyflawni dogfennau drwy lofnod o leiaf ddau o'r Ymddiriedolwyr.

**21. Aelodau o'r SCE, gan gynnwys Ymddiriedolwyr, yn defnyddio cyfathrebiadau electronig**

1. **Cyffredinol**

Bydd yr SCE yn cydymffurfio â gofynion y Darpariaethau Cyfathrebu yn y Rheoliadau Cyffredinol a'r darpariaethau isod ac yn benodol:

   a. Y gofyniad yn y Darpariaethau Cyfathrebu i ddarparu o fewn 21 diwrnod i unrhyw aelod ar gais, gopi caled o unrhyw ddogfen neu wybodaeth a anfonwyd i'r aelod heblaw ar ffurf copi caled.
   b. Unrhyw ofynion yn y Darpariaethau Cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn mewn ffurf neu ddull penodol.
   c. Rhaid i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddulliau electronig gydymffurfio â rheolau ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys clercio a chymryd cofnodion.
   d. Bydd unrhyw aelod neu Ymddiriedolwr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod drwy ddulliau electronig addas y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolwyr lle gall cyfranogwr neu gyfranogwyr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill yn gymwys fel rhywun sy'n bresennol yn y cyfarfod (ac er mwyn osgoi amheuaeth ni chymerir y cyfansoddiad hwn i atal cyfranogiad person, gan gynnwys yn y cworwm a'r broses o wneud penderfyniadau, gan ddefnyddio'r dulliau hynny).
   e. Gellir cynnal cyfarfod drwy ddulliau electronig addas y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolwyr lle gall pob cyfranogwr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill.

2. **I'r SCE**

   Gall unrhyw aelod neu Ymddiriedolwr o'r SCE gyfathrebu'n electronig â'r SCE i gyfeiriad a bennir gan yr SCE at y diben, cyn belled â bod y cyfathrebiad wedi'i ddilysu mewn modd sy'n foddhaol i'r SCE.

3. **Gan yr SCE**

   a. Cymerir bod unrhyw aelod neu Ymddiriedolwr o'r SCE, trwy ddarparu cyfeiriad e-bost neu debyg i'r SCE, wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau gan yr SCE ar ffurf electronig yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai bod yr aelod wedi nodi i'r SCE eu hamharodrwydd i dderbyn cyfathrebiadau o'r fath yn y ffurf honno.

   b. Gall yr Ymddiriedolwyr, yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, drwy gyhoeddi ar ei wefan

      (i) rhoi i'r aelodau yr hysbysiad y cyfeirir ato yng nghymal 11(3) (Hysbysiad o Gyfarfodydd Cyffredinol);

      (ii) rhoi hysbysiad i ymddiriedolwyr o'u cyfarfodydd yn unol â chymal 18(3) (Galw cyfarfodydd);

   c. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

      (i) rhoi i'r aelodau yr hysbysiad y cyfeirir ato yng nghymal 11(3) (Hysbysiad o Gyfarfodydd Cyffredinol);

      (ii) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodau ac Ymddiriedolwyr yr elusen yn cael eu hysbysu'n brydlon am gyhoeddi unrhyw hysbysiad neu gynnig o'r fath;

      (iii) anfon unrhyw hysbysiad neu gynnig o'r fath ar ffurf copi caled i unrhyw aelod neu Ymddiriedolwr nad yw wedi cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau ar ffurf electronig.

**22. Cadw Cofrestrau'r SCE**

Rhaid i'r SCE gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyffredinol mewn perthynas â chadw cofrestrau ei aelodau a'i Ymddiriedolwyr, a darparu mynediad at y cofrestrau hyn.

**23. Cofnodion yr Ymddiriedolwyr**

Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofnodion o bob:

1. penodiad swyddog a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr;
2. trafodyn yng Nghyfarfodydd Cyffredinol yr SCE;
3. cyfarfod yr Ymddiriedolwyr a phwyllgorau'r Ymddiriedolwyr gan gynnwys:

   a. enwau'r Ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;

   b. y penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod; ac

   c. lle bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau;

4. penderfyniad a wneir gan yr Ymddiriedolwyr heblaw mewn cyfarfodydd.

**24. Cofnodion cyfrifyddu, cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol, cynnal a chadw cofrestrau**

1. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon ar gyfer yr SCE yn cael eu paratoi yn unol â deddfwriaeth elusennau cyfredol a'u cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol, fel arfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mewn modd amserol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i'w hystyried a'u derbyn.
2. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyflwyno adroddiad blynyddol, datganiad cyfrifon blynyddol a ffurflen flynyddol i'r Comisiwn Elusennau yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.
3. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr hysbysu'r Comisiwn o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid ym manylion yr SCE a gofnodwyd ar y Gofrestr Ganolog o Elusennau.

**25. Rheolau'r SCE**

Gall yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd wneud y fath reolau neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol ag y credant eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer cynnal a rheoli'r SCE yn briodol, ond rhaid i reolau neu is-ddeddfau o'r fath beidio â bod yn anghyson ag unrhyw ddarpariaeth yn y cyfansoddiad hwn. Rhaid i gopïau o unrhyw reolau neu is-ddeddfau o'r fath sydd mewn grym ar hyn o bryd fod ar gael i unrhyw aelod o'r SCE ar gais.

**26. Anghydfodau rhwng aelodau'r SCE**

Os bydd anghydfod yn codi rhwng aelodau'r SCE ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth a wneir gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac na ellir datrys yr anghydfod drwy gytundeb, rhaid i'r partïon i'r anghydfod yn gyntaf geisio'n ddidwyll ddatrys yr anghydfod drwy gyfryngu wedi'i drefnu gan yr SCE, yna mewn ymgynghoriad â Chlerc Cofnodi Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, cyn troi at ymgyfreitha.

**27. Diwygio'r cyfansoddiad**

Fel y darperir gan gymalau 224-227 o Ddeddf Elusennau 2011:

1. Dim ond trwy Gyfarfod Cyffredinol o aelodau'r SCE, fel arfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, y gellir diwygio'r cyfansoddiad hwn a'i gofnodi trwy gofnod o'r cyfarfod.
2. Mae unrhyw newid i gymal 3 (Amcan), cymal 28 (Dirwyn i ben neu ddiddymu'n wirfoddol), y cymal hwn, neu unrhyw ddarpariaeth lle byddai'r newid yn darparu awdurdodiad i unrhyw fudd gael ei dderbyn gan Ymddiriedolwyr neu aelodau o'r SCE neu bersonau sy'n gysylltiedig â hwy, yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau.
3. Ni fydd unrhyw ddiwygiad sy'n anghyson â darpariaethau Deddf Elusennau 2011 na'r Rheoliadau Cyffredinol yn ddilys.

4. Rhaid anfon copi o unrhyw benderfyniad sy'n newid y cyfansoddiad, ynghyd â chopi o gyfansoddiad yr SCE fel y'i diwygiwyd, at y Comisiwn o fewn 15 diwrnod o'r dyddiad y caiff y penderfyniad ei basio.

**28. Dirwyn i ben neu ddiddymu'n wirfoddol**

Os penderfynir mewn Cyfarfod Cyffredinol o'r SCE ei bod yn angenrheidiol neu'n ddoeth diddymu'r SCE neu uno â chorff arall y Crynwyr, bydd gan yr Ymddiriedolwyr y pŵer i wireddu unrhyw asedau sy'n cael eu dal gan neu ar ran yr SCE. Bydd unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl bodloni unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau priodol yn cael eu rhoi neu eu trosglwyddo i Gyfarfod Blynyddol Prydain, neu i ryw sefydliad neu sefydliadau elusennol eraill sydd ag amcanion tebyg i rai'r SCE. Rhaid i'r SCE fodloni gofynion y Rheoliadau Diddymu, gan gynnwys gwneud cais i'r Comisiwn i'r SCE gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Elusennau.

**29. Canllawiau**

Wrth arfer ei bwerau ac ym mhob mater sy'n ymwneud â'i weinyddiaeth, bydd yr SCE (fel rhan o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion) a'i Ymddiriedolwyr yn cael eu harwain gan y Llyfr Disgyblaeth a'i ddiwygiadau yn y dyfodol a bydd yn dilyn ei ddarpariaethau, i'r graddau nad yw hyn yn anghyson â thelerau'r cyfansoddiad hwn.

**30. Cefndir ac ychwanegu Cyfarfodydd Rhanbarth**

Ffurfiwyd yr SCE hwn i ddod i rym o'r Dyddiad Dod i Rym trwy uno pum elusen;

1. Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ym Mhrydain, Cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru, Rhif Elusen Gofrestredig 1134209;
2. Cyfarfod Crynwyr Rhanbarth De Cymru, Rhif Elusen Gofrestredig 1134539;
3. Cyfarfod Crynwyr Rhanbarth y Gororau Deheuol, Rhif Elusen Gofrestredig 1134528;
4. Cyfarfod Crynwyr Rhanbarth Canolbarth Cymru, Elusen a Eithrir;
5. Crynwyr Cymru – Quakers in Wales (CCQW), Rhif Elusen Gofrestredig 1137935.

Gellir cael gwybodaeth ariannol hanesyddol a gwybodaeth arall am yr elusennau hyn drwy Geidwad Cofnodion (Archifydd) y cyfarfod cyfansoddol perthnasol.

Gall Cyfarfodydd Rhanbarth eraill gan gynnwys y rhai a grëwyd gan y Cyfarfodydd Rhanbarth uchod ddod yn Gyfarfodydd Rhanbarth Cyfansoddol ac o ganlyniad yn Gyrff Cyfansoddol yr SCE hwn trwy gytundeb Cyfarfod Cyffredinol.

**31. GEIRFA'R DERMINOLEG A DDEFNYDDIR YN Y DDOGFEN HON**

Mae **Arbenigwr Ariannol** yn unigolyn, cwmni neu ffŷrm sydd wedi'i awdurdodi i roi cyngor buddsoddi o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.

**Cadeirydd** *gweler* Clerc.

**Clerc** unrhyw gyfarfod o'r Crynwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am baratoi'r busnes, cynnal y cyfarfod a drafftio cofnodion y cyfarfod. Yn y cyfansoddiad hwn fe'i defnyddir yn gyffredinol yn gyfystyr â Chadeirydd. Gall y Clerc gael eu cynorthwyo gan dîm clercio.

Y **Clerc Recordio** yw'r uwch aelod o staff a gyflogir gan Gyfarfod Blynyddol Prydain.

Mae **Corff Cyfansoddol** yn golygu un o'r Cyfarfodydd Rhanbarth Cyfansoddol a Chrynwyr Cymru – Quakers in Wales sy'n ffurfio'r SCE.

Mae gan **Grynwyr Cymru – Quakers in Wales (CCQW)** gyfrifoldebau wedi'u dirprwyo iddo gan Gyfarfod Blynyddol Prydain i gynrychioli a hyrwyddo bywyd a thystiolaeth Crynwyr yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr holl Gyfeillion sy'n byw yng Nghymru neu sy'n Aelodau mewn Cyfarfodydd Lleol yng Nghymru. Gwneir darpariaeth i Aelodau a Mynychwyr Cyfarfodydd eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Mae **Cyfarfod Addoli** yn golygu cynulliad o bobl at ddiben addoli. Efallai y bydd eglwysi eraill yn defnyddio'r gair gwasanaeth.

Mae **Cyfarfod Rhanbarth Cyfansoddol** yn golygu un o'r Cyfarfodydd Rhanbarth sydd, ar y cyd â **Chrynwyr Cymru – Quakers in Wales**, yn ffurfio cyrff cyfansoddol yr SCE (yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau y cytunwyd arnynt o dan gymal 30).

Mae **Cyfarfod Blynyddol Prydain o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr),** a elwir yn fwy cyffredin fel yn **Gyfarfod Blynyddol Prydain**, yn cyfeirio at bolisi, eiddo, cyflogaeth a gwaith Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion a gynhelir ac a reolir yn ganolog. Cyfeirir ato yma fel Cyfarfod Blynyddol Prydain.

Mae **Cyfarfod Cyffredinol** yn golygu cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE.

**Cyfarfodydd Rhanbarth** yw'r prif gyfarfodydd lleol ar gyfer materion eglwysig. Mae ganddynt gyfrifoldeb i dderbyn aelodau newydd i Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion a therfynu aelodaeth, a'r ddyletswydd i gadw cofnodion aelodaeth priodol.

**Cyfeillion/Crynwyr**. Mae aelodau Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion yn cael eu hadnabod yn hanesyddol fel Cyfeillion ac mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio gan Gyfeillion ac ymhlith Cyfeillion. Mae Cyfeillion hefyd yn cael eu galw'n Grynwyr. Mae'r ddau air hyn cystal â bod yn gyfystyr yn dibynnu ar y cyd-destun.

**Cymar** yw enw anffurfiol y Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae **Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ym Mhrydain (Cyfarfod Blynyddol Prydain),** neu'n fwy cyffredin, y **Crynwyr ym Mhrydain** yn cyfeirio at yr eglwys ym Mhrydain, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys ei holl gyfarfodydd addoli lleol a'i chyfarfodydd cyfansoddol ar gyfer materion eglwysig, yn ogystal â'u holl waith. Cyfeirir ati yma fel **Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion**.

Mae **Darpariaethau Cyfathrebu** yn golygu'r Darpariaethau Cyfathrebu yn Rhan 9 o'r Rheoliadau Cyffredinol.

**Dirnadaeth** yw'r term a ddefnyddir yn Null Busnes y Crynwyr i ddisgrifio'r broses y mae cyfarfodydd y Crynwyr yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau. Caiff hyn ei grynhoi yng Nghymal 10(1) y Cyfansoddiad hwn.

Y **Dyddiad Effeithiol** yw'r dyddiad effeithiol y penderfynwyd arno gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer yr uno y cyfeirir ato yng nghymal 30.

Mae’r **Gororau** yn cael ei ddefnyddio yn y ddogfen hon i ddisgrifio'r siroedd hynny yn Lloegr sy'n gorwedd ar hyd y ffin â Chymru.

Mae’r **Llyfr Disgyblaeth** yn golygu llyfr Disgyblaeth Gristnogol Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ym Mhrydain a bydd yn cynnwys nid yn unig yr argraffiad cyfredol ond hefyd (lle mae'r cyd-destun yn caniatáu) yr holl ddiwygiadau dilynol.

Mae **Mynychwr** yn golygu person nad yw’n aelod ffurfiol o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion ond sy'n mynychu ei Chyfarfodydd Addoli yn rheolaidd.

Mae **Person cysylltiedig** yn golygu:

(a) plentyn, rhiant, ŵyr, wres, taid, tad-cu, nain, mam-gu, brawd neu chwaer i'r Ymddiriedolwr;

(b) priod neu bartner sifil yr Ymddiriedolwr neu briod neu bartner sifil unrhyw berson sy'n dod o fewn paragraff (a) uchod;

(c) person sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolwr neu ag unrhyw berson sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) uchod;

(d) sefydliad sy'n cael ei reoli –

(i) gan yr Ymddiriedolwr neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n dod o fewn paragraff (a), (b), neu (c) uchod; neu

(ii) gan ddau neu ragor o bersonau sy'n dod o fewn is-baragraff (d)(i), pan gânt eu cymryd gyda'i gilydd;

(e) corff corfforaethol -

(i) lle mae gan yr Ymddiriedolwr neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n dod o fewn paragraffau (a) i (c) fuddiant sylweddol; neu

(ii) lle mae dau neu ragor o bersonau sy'n dod o fewn is-baragraff (e)(i) sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, â buddiant sylweddol.

Bydd adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011 yn berthnasol at ddibenion dehongli'r termau a ddefnyddir yn y cyfansoddiad hwn.

Mae **Rheoliadau Cyffredinol** yn golygu Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Cyffredinol) 2012.

Mae **Rheoliadau Diddymu** yn golygu Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Ansolfedd a Diddymu) 2012.

Y **Sefydliad Corfforedig Elusennol (neu’r SCE)** a gyfansoddir gan y ddogfen hon yw'r SCE y cyfeirir ato yng nghymal 1.

Mae **Tystiolaethau Moesegol** yn draddodiadol wedi’u rhestru fel cydraddoldeb, cyfiawnder, heddwch, symlrwydd a gwirionedd, ond erbyn hyn fe'u cymerir i gynnwys gofal am yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Maent yn ffurfio rhan o'r hyn ydyw i fod yn Grynwr.

Mae **Ymddiriedolwr** yn golygu ymddiriedolwr elusen yr SCE.

**<u>Troednodiadau</u>**

**Llyfr Disgyblaeth**

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r testun ar gael ar-lein ar hyn o bryd: https://qfp.quaker.org.uk

Y rhifyn cyfredol yw Quaker Faith and Practice Pumed Argraffiad (Llundain) 2013, yn amodol ar ddiwygiadau dilynol.  Gall gwelliannau gael eu cytuno gan Gyfarfod Blynyddol Prydain yn y blynyddoedd rhwng cyhoeddi argraffiadau newydd o'r llyfr.

## Atodiad 1 – Cyfarfodydd Rhanbarth

1. **Gofynion ar gyfer bod yn aelod o Gyfarfod Rhanbarth**

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw un sy'n cefnogi, ac sy'n ymrwymedig i, hyrwyddo dibenion Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, sy'n addoli gyda'r Crynwyr yn y Cyfarfodydd Rhanbarth cyfansoddol.

2. **Cais am aelodaeth o Gyfarfod Rhanbarth**

(a) Os yw person yn dymuno dod yn aelod o Gyfarfod Rhanbarth, caiff hyn ei gyfleu i glerc y Cyfarfod Rhanbarth yn ysgrifenedig (llythyr neu e-bost) a bydd y mater yn cael ei gyflwyno i'w gyfarfod busnes nesaf.

(b) Daw person yn aelod pan fydd y Cyfarfod Rhanbarth yn cytuno ar gofnod i'r perwyl hwn.

(c) Bydd aelod yn cael ei benodi i hysbysu'r ymgeisydd o fewn 21 diwrnod ac i'w croesawu i'r sefydliad.

(d) Mewn sefyllfa anarferol pan fydd y Cyfarfod Rhanbarth yn penderfynu nad yw'n briodol i'r person ddod yn aelod, byddant yn cael gwybod o fewn 21 diwrnod i'r cyfarfod o'r rhesymau pam y gwnaed y penderfyniad.

3. **Trosglwyddo aelodaeth o un Cyfarfod Rhanbarth i Gyfarfod Rhanbarth arall**

Os bydd aelod yn symud cartref i Gyfarfod Rhanbarth arall, fe'u hanogir i ofyn i'w haelodaeth gael ei throsglwyddo i'r Cyfarfod Rhanbarth newydd. Byddant yn dod yn aelod o'r Cyfarfod Rhanbarth newydd pan fydd y Cyfarfod Rhanbarth sy'n derbyn yn cofnodi ei fod yn derbyn y trosglwyddiad.

4. **Terfynu aelodaeth o Gyfarfod Rhanbarth**

(a) Nid yw aelodaeth yn drosglwyddadwy i berson arall a bydd yn dod i ben pan fydd y Cyfaill yn marw.

(b) Os yw Cyfaill yn dymuno terfynu eu haelodaeth, dylent roi gwybod i glerc y Cyfarfod Rhanbarth yn ysgrifenedig. Daw eu haelodaeth i ben pan fo'r Cyfarfod Rhanbarth yn cofnodi nad ydynt bellach yn aelod.

(c) Os nad yw aelod wedi bod yn rhan o fywyd eu Cyfarfod Rhanbarth ers peth amser, gallai fod yn briodol gofyn iddynt gadarnhau eu bod yn dymuno parhau i fod yn aelod o'r sefydliad a chaniatáu cyfnod o 28 diwrnod (yn rhedeg o ddyddiad rhoi’r hysbysiad) iddynt ddarparu'r cadarnhad hwnnw. Os bydd aelod yn methu â chadarnhau eu bod yn dymuno aros yn aelod (naill ai'n ysgrifenedig neu drwy e-bost neu drwy fynychu cyfarfod addoli), gellir terfynu eu haelodaeth yn y cyfarfod nesaf a chofnodi hynny yn y cofnodion.

(d) Os yw ymddygiad aelod neu farn aelod a fynegir yn gyhoeddus mor wahanol i egwyddorion Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion fel bod y bond ysbrydol wedi'i dorri,

gellir terfynu eu haelodaeth yn y Cyfarfod Rhanbarth nesaf a chofnodi hynny yng nghofnodion y cyfarfod.

5. **Apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch aelodaeth**

Efallai y bydd ambell achlysur lle mae Cyfaill yn dal i fod yn anfodlon ar benderfyniad Cyfarfod Rhanbarth am eu haelodaeth, hyd yn oed ar ôl i Gyfeillion lleol geisio esbonio'r ymresymu. Os yw aelod yn anfodlon ar benderfyniad am eu haelodaeth, gallant apelio yn ysgrifenedig yn erbyn y penderfyniad i Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ym Mhrydain.